
Adolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gwasanaeth cyhoeddus y BBC

Canfyddiadau

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi canfyddiadau ein hadolygiad o'r rhyngweithio rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i brif is-gwmni masnachol, BBC Studios.

- 1.1 Mae diwydiant darlledu'r DU wedi newid yn sylweddol ers i Ofcom ymgymryd â rheoleiddio'r BBC yn 2017. Mae datblygiadau mewn technoleg wedi caniatáu i fodolau busnes newydd ddod i'r amlwg, gan arwain at gyfnod o arloesi a dewis digynsail i ddefnyddwyr. Mae cynulleidfaoedd yn elwa o dwf sylweddol mewn cynnwys o ansawdd uchel sydd ar gael ar y teledu ac ar-lein, ac mae cystadleuaeth wedi dwysáu ar gyfer gwasanaethau cwmnïau cynhyrchu a dosbarthu.
- 1.2 Mae gweithgareddau masnachol y BBC hefyd wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ei changhennau cynhyrchu a dosbarthu wedi dod ynghyd fel BBC Studios newydd, ac mae gweithgareddau cynhyrchu ychwanegol wedi symud o adran gwasanaeth cyhoeddus y BBC i'r endid newydd hwn. Mae BBC Studios yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys i ddefnyddwyr ei wylïo yn y DU ac o gwmpas y byd. Mae'n berchen ar ac yn gweithredu sianeli (e.e. UKTV) o fewn a'r tu allan i'r DU, ac mewn partneriaeth ag ITV mae'n berchen ar y gwasanaeth fideo-ar-alw drwy danysgrifiad, BritBox. Mae BBC Studios hefyd yn gwerthu fformatau rhaglenni yn rhyngwladol (fel Strictly Come Dancing) a chynhyrchion defnyddwyr fel DVDs a marsiandiaeth.
- 1.3 Amlinellir rôl Ofcom mewn perthynas â gweithgareddau masnachol y BBC yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith. Nod ein rheoleiddio yw sicrhau nad yw gweithgareddau masnachol y BBC yn ennill mantais annheg dros gystadleuwyr yn rhinwedd eu perthynas â'r BBC. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio'r gwasanaeth cyhoeddus, ac o ganlyniad i hynny, ffi drwydded y BBC, i ariannu na chymorthdalau gweithgareddau masnachol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, rydym wedi rhoi gofynion masnachu a gwahanu yn eu lle drwy set o ofynion a chanllawiau. Mae'n rhaid i'r BBC roi mesurau rheoli a gweithdrefnau priodol a chadarn ar waith i sicrhau ei fod yn glynu wrth y rheoleiddio, yn enwedig wrth i'r farchnad newid ac wrth i BBC Studios barhau i esblygu.
- 1.4 Yn yr adolygiad hwn rydym wedi ceisio deall yn well sut mae'r BBC wedi gweithredu'r rheolau rydym wedi'u rhoi ar waith. Rydym hefyd wedi asesu a yw ein rheoleiddio yn parhau i fod yn effeithiol (yn seiliedig ar y fframwaith cyfreithiol presennol a nodir yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith). Dechreuwyd ar yr adolygiad hwn gennym cyn y pandemig, ac mae wedi'i ohirio'n sylweddol o ganlyniad. Yn y cyfamser, mae'r farchnad a'r BBC wedi parhau i newid yn gyflym. Felly, rydym wedi manteisio ar y cyfle i alinio'r adolygiad hwn â'n hadolygiad ehangach o reoleiddio'r BBC, a fydd yn ei dro yn cyfeirio Adolygiad Hanner Ffordd trwy'r Siarter Llywodraeth y DU ac unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth a gweithgareddau masnachol y gallwn eu cynnig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ein canfyddiadau yn gryno

Ein canfyddiad allweddol yw bod dau faes arwyddocaol lle nad ydym yn fodlon ar hyn o bryd fod gan y BBC fesurau rheoli a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'n rheoleiddio. Mae'r rheolau yno i sicrhau nad yw'r berthynas rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC a BBC Studios yn rhoi mantais annheg nac yn aflunio cystadleuaeth. Yn y ddau achos, mae angen i'r BBC weithredu yn awr fel y gallwn ni a rhanddeiliaid fod yn hyderus bod ganddo fesurau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n rheoleiddio.

Gwerthiannau cynnwys eilaidd – Ar gyfer categorïau penodol o gynnwys y mae BBC Studios yn eu dosbarthu, lle mae gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn berchen ar yr eiddo deallusol, mae trefniadau cyd-gynhyrchu ar waith. O dan y trefniadau hyn, mae gan BBC Studios hawl i'r cyfan o'r elw sy'n gysylltiedig â dosbarthu'r hawliau cynnwys eilaidd cysylltiedig. Dyma arfer hirsefydlog ac nid yw'n ymddangos i ni fod y BBC wedi ei adolygu a'i ddiweddarau'n llawn yng ngoleuni ein rheolau.

Nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod y gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal profion gwrthrychol i sicrhau bod ei drefniadau cyd-gynhyrchu gyda BBC Studios ar hyd braich ac ar delerau masnachol, ac felly nid yw'n glir i ni sut mae'r BBC yn bodloni ei hun ei fod yn cyflawni cydymffurfiaeth.

Cyflenwi a phrisio nwyddau a gwasanaethau – Mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau i'w is-gwmnïau masnachol ac i'r farchnad (gan gynnwys BBC Studios). Er mwyn deall yn well y ffordd y mae'r BBC yn gwneud hyn, edrychwyd ar sampl fach o drafodion a daethpwyd o hyd i rai problemau gyda'r prosesau gweinyddol sydd ar waith.

Yn y meysydd eraill a ystyriwyd yn ein Hadolygiad, rydym yn fodlon yn fras ag ymagwedd y BBC at gyfnewid gwybodaeth, ei strwythur llywodraethu masnachol a'i drefniadau adrodd sy'n sicrhau gwahaniad priodol rhwng y gwasanaeth cyhoeddus a BBC Studios, a'i hymagwedd at godi tâl ar BBC Studios am ddefnyddio brand y BBC.

Y camau nesaf

- 1.5 O ystyried y pryderon rydym wedi'u nodi, rydym yn disgwyl i Fwrdd y BBC gymryd camau i ddiweddarau ei hymagwedd ac i edrych yn fwy cyffredinol ar y materion a godwyd a bodloni ei hun bod ei phrosesau a'i threfniadau'n cyfateb i'n rheolau.
- 1.6 Yn ddiweddarach eleni rydym yn bwriadu ymgynghori ar newidiadau posib i'r rheoliadau cystadleuaeth fel rhan o'n hadolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC. Yn yr ymgynghoriad hwn byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn ac unrhyw newidiadau dilynol a wnaed gan y BBC wrth benderfynu a oes angen diwygiadau i'r rheolau presennol er mwyn ymdrin â'n pryderon.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r canfyddiadau a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.